# CYSUR MEWN CASGLU

#CYSURMEWNCASGLU

## RYGBI

Gellir dadlau mai rygbi yw camp genedlaethol Cymru, gyda thîm Cymru yn llwyddiannus iawn am nifer o flynyddoedd yn y 1970au, ac yn fwy diweddar yn ennill pedair Camp Lawn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad rhwng 2005-2019. I lawer, mae rygbi 'yn fwy na gêm', mae'n rhan o hunaniaeth Cymru.

### Cyn y gêm

Gall y cynnwrf cyn gêm fod yn dipyn o brofiad, â'r strydoedd yn fwrlwm o sŵn miloedd o bobl yn dod at ei gilydd am un rheswm. I lawer, mae diwrnod gêm yn gyfle i wisgo fyny a dangos eich balchder dros ein gwlad. Edrychwch ar y ddau gefnogwr yma cyn gêm mewn llun gan David Hurn.



*© David Hurn / MAGNUM Photos / Amgueddfa Cymru - National Museum Wales*

***Cwestiynau:***

***Oedd gennych chi unrhyw ddefodau cyn gêm?***

***Wnaethoch chi fwynhau gwisgo fyny ar gyfer gêm?***

***Pa fath o fwyd a diod fyddech chi'n eu mwyn-hau ar ddiwrnod gêm?***

***Gweithgaredd synhwyraidd:***

***Pan ddaw tyrfa at ei gilydd yng Nghymru, maen nhw'n sicr o ganu cân. Mae rhai o emynau enwocaf Cymru wedi bod yn gysylltiedig â rygbi dros y blynyddoedd, caneuon fel Calon Lân a Chwm Rhondda. Allwch chi enwi unrhyw ganeuon eraill sy'n cael eu canu mewn gemau rygbi?***

# CYSUR MEWN CASGLU

#CYSURMEWNCASGLU

Allwch chi enwi'r cantorion enwog hyn, sydd â'u caneuon yn gysylltiedig â'r gamp dros y blynyddoedd?

**Chwaraewch Max Boyce, 'Hymns and Arias'**

**Chwaraewch Harry Secombe / Bryn Terfel, 'We'll Keep a Welcome (in the Hillside)'**

## Y tîm

Mae rygbi yn gamp gorfforol iawn, mae'n gêm galed. Oherwydd hyn, caiff perthynas glós ei magu rhwng cyd-chwaraewyr ar y cae, gan fod 15 chwaraewr yn dod at ei gilydd yn un tîm. Edrychwch ar y llun hwn o dîm 1924-25 Ysgol South Church Street yn Nhre-biwt, Caerdydd.



© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

***Cwestiynau:***

***Oeddech chi, neu ydych chi'n dal i chwarae rygbi?***

***Os wnaethoch chi, neu ydych chi, pa atgofion sydd gennych chi o'ch cyd-chwaraewyr a'r cysylltiadau a wnaethoch chi?***

***Pa dîm ydych chi neu oeddech chi'n ei gefnogi?***

## Y stadiwm

Mae stadia yn amrywio ledled y wlad, gyda rhai wedi cael eu hadeiladu ar gyfer y gymuned leol ac eraill ar gyfer miloedd. Yn amlach na pheidio, bydd gan y rhain seddi o ryw fath. Edrychwch ar y seddi hyn o Barc yr Arfau Caerdydd, wedi'u tynnu o Stand y De cyn ei ddymchwel yn 1997.



*© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales*

***Cwestiynau:***

***Oedd gennych chi gae rygbi agos pan yn blentyn? Sut brofiad oedd o? Oedd yna seddi neu oedd yn rhaid i bawb sefyll?***

***Ydych chi wedi bod i weld gêm neu ymweld â'r stadia mwy, fel Stadiwm Principality yng Nghaerdydd (Stadiwm y Mileniwm ynghynt)?***

# CYSUR MEWN CASGLU

#CYSURMEWNCASGLU

Y gêm

Mae deunydd a siâp peli rygbi wedi newid dros y blynyddoedd. Pledren mochyn fyddai'r peli rygbi cynharaf, ac wedyn defnyddiwyd lledr hyd at y 1980au. Cafodd y bêl ledr hon ei defnyddio mewn gêm rhwng Ffrainc a Chymru yng Nghasnewydd yn 1912. Fe wnaeth Cymru guro Ffrainc 14 – 3.



© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

Yn ogystal â'r bêl, darn pwysig o'r offer yw'r crys ei hun. Mae Cymru'n enwog am wisgo coch, ond maen nhw hefyd wedi gwisgo melyn a du wrth chwarae oddi cartref. Y symbol sydd wedi'i frodio ar y crys hwn yw'r tair pluen enwog, sy'n dal i gael ei ddefnyddio heddiw.

Crys Horace Sampson Lyne oedd hwn, a enillodd bum cap i Gymru rhwng 1883 a 1885.

***Cwestiynau:***

***Pa symbolau a lliwiau mae timau eraill yn eu defnyddio?***

***Pa eitemau eraill sy'n bwysig i gêm o rygbi?***

***Gweithgaredd synhwyraidd:***

***Dewch ag offer rygbi gyda chi fel bod pobl yn gallu eu dal/cyffwrdd: pêl, pâr o esgidiau rygbi, siorts neu sanau, crys***



© Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

AMGUEDDFA CYMRU